

YSGOLION YR 21AIN GANRIF



ATODIAD C - ASESAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad yma ar gael ar y dudalen 'Cymryd Rhan' ar wefan y Cyngor

Holiadur Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyfadrn: Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

Maes Gwasanaeth: Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Swyddog Cyfrifol: Lisa Howell

Dyma ddogfen fyw fydd yn cael ei diweddarw wrth i'r cynigion ddatblygu. Mae i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Ddogfen Ymgynghori, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned gan fod pob un yn cynnwys gwybodaeth a themâu trawsbynciol.

1. Enw'r Prosiect:

Symud Ysgol Gynradd Gymraeg (YGG Llyn y Forwyn) i adeilad newydd sbon ar safle newydd.

Dyma'r cynigion:

- Symud YGG Llyn y Forwyn i adeilad ysgol newydd sbon ar safle newydd. Y cynnig yw codi adeilad newydd yr ysgol ar ochr ogleddol Crib-y-Ddôl, Glynrhedynog, CF43 4AD, sy'n cael ei adnabod yn lleol fel lleoliad hen 'Ffatri Chubb'. Fydd dim newidiadau i ddalgylch YGG Llyn y Forwyn. Bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 oed sydd eisiau addysg gynradd cyfrwng Gymraeg. Ei nifer derbyn arfaethedig fyddai 30 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn, gyda chyfanswm o 210 o leoedd i ddisgyblion (a'r meithrin). Amcangyfrifir mai £8.5 miliwn fydd cost y prosiect. Bydd yr elfen gyfalaf yma o'r cynnig yn cael ei hariannu'n llawn gan Raglen Buddsoddi Cyfalaf y Cyngor.

2. Nodau'r Polisi - Ystyriwch fwriad y cynnig:

Sut bydd y Cyngor yn sicrhau bod y prosiect yn gweithio yn ôl y bwriad?

Mae'r cynnig yma wedi'i ddisgrifio'n llawn yn y Ddogfen Ymgynghori ac Adroddiad Cabinet y Cyngor o 28 Ionawr 2021.

I grynhoi, y cynnig yw symud YGG Llyn y Forwyn i adeilad newydd sbon ar safle newydd. Y cynnig yw codi adeilad newydd i'r ysgol ar y tir ar ochr ogleddol Crib-y-Ddôl, Glynrhedynog, CF43 4AD, sy'n cael ei adnabod yn lleol fel lleoliad hen 'Ffatri Chubb'. Bydd yr adeilad yn cynnwys:

- Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch y bydd modd i'r gymuned ehangach eu defnyddio.
- Ardaloedd i'w defnyddio gan y gymuned leol.

- Peth capasiti a lle ychwanegol ar gyfer ymyriadau anghenion dysgu ychwanegol.
- Gwell lleoedd awyr agored i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm, gan gynnwys ystafell ddosbarth awyr agored ac ardal 'ysgolion coedwig'.
- Gwell rheolaeth traffig gan gynnwys gollwng disgyblion sy'n teithio ar fysiau ar y safle a maes parcio i'r staff.

Bydd y newidiadau arfaethedig i YGG Llyn y Forwyn yn golygu adeiladu ysgol newydd sbon sy'n addas ar gyfer anghenion dysgu yn yr 21^{ain} ac sy'n cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 yn lle'r hen adeilad sydd mewn cyflwr gwael.

Cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rydyn ni o'r farn y bydd y cynigion ar gyfer YGG Llyn y Forwyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr holl nodau, sef:

1. Cymru lewyrchus.
2. Cymru gydnerth.
3. Cymru iachach.
4. Cymru sy'n fwy cyfartal.
5. Cymru o gymunedau cydlynus.
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

- **Cymru lewyrchus**

Mae gwella canlyniadau addysgol a darpariaeth addysgol yn flaenoriaethau ymhob prosiect sy'n cael eu cyflwyno o fewn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gyfrannu at ddatblygu gweithlu medrus ac addysgedig.

- **Cymru gydnerth**

Mae adeiladau ysgol newydd yn cael eu hadeiladu i safonau rhagorol BREEAM ac yn cynnwys nodweddion fel celloedd ffotofoltäig, systemau casglu dŵr glaw, ac ardal coedwig bioamrywiol ar gyfer yr ysgol, gan gyfrannu at amgylchedd naturiol iachach.

- **Cymru iachach**

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig darpariaeth chwaraeon fodern ac aml-ddefnydd a chyfleusterau allanol aml-ddefnydd sydd nid yn unig o fudd i'r ysgol ond i'r gymuned ehangach hefyd. Mae ei fuddion yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles.

- **Cymru sy'n fwy cyfartal**

Mae pob un o'n Hysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn gwbl gynhwysol ac yn gwbl hygyrch. Yn ogystal, mae cludiant o'r cartref i ysgol RhCT yn rhagori ar ofynion statudol Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau bod gan bob disgybl fynediad teg i unrhyw ysgol waeth beth fo'r ffactorau cymdeithasol, economaidd neu ddaearyddol.

- Cymru o gymunedau cydlynus
Mae cyfleusterau cymunedol wedi'u cynnwys yn ein hysgolion newydd er mwyn i ysgolion gynnig rhagor i'r gymuned a gweithredu'n ganolbwynt i'r gymuned leol. Mae'r cyfleusterau sy'n rhan o'r cynnig yma'n cynnwys ystafell gymunedol bwrpasol a lleoliad gofal plant, yn ogystal â chyfleusterau chwaraeon i'w defnyddio y tu allan i oriau'r ysgol, gan ddod â disgyblion yr ysgol ac eraill o wahanol gymunedau ynghyd.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg RhCT yn nodi gweledigaeth ac amcanion y Cyngor i gynyddu nifer y disgyblion cyfrwng Gymraeg; gwella safon y ddarpariaeth a'r canlyniadau addysgol; a sicrhau bod y gweithlu addysgol cymwys a hyfforddedig yn addas at y gwaith. Mae'r Cynllun yma'n bolisi allweddol ac mae'n llywio Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Bydd y cynigion yn sicrhau bod rhagor o lefydd cyfrwng Gymraeg ar gael ac yn gwella ansawdd lleoedd ysgol cyfrwng Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Bwriad y cynnig yma yw cynyddu'r capasiti mewn ysgol Gymraeg, a'i gwella'n sylweddol, gan gyfrannu at ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Trwy gyflawni ein Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, rydyn ni'n ystyried effaith fyd-eang pob dewis materol, gyda'r nod o leihau carbon ac effeithiau amgylcheddol. Yn ogystal, rydyn ni'n sicrhau ein bod yn gweithio gyda chontractwyr sy'n ymfalchïo mewn defnyddio arferion adeiladu masnach deg yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Yn ogystal, mae asesiad o'r cynigion yng ngoleuni pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

Asesiad o Gynigion ar y Cynigion ar Bum Ffordd o Weithio Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)	
<u>Hirdymor</u> (Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd).	<p>Sut mae eich prosiect yn cydbwysu anghenion y tymor byr â'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol?</p> <p>Mae cynnal adeilad presennol YGG Llyn y Forwyn yn straen aruthrol ar adnoddau'r Cyngor. Cydnabyddir bod cyfle, trwy Raglen Fuddsoddi Cyfalaf y Cyngor, i leddfu'r pwysau yma mewn ffordd fwy effeithlon yn y blynyddoedd sydd i ddod.</p> <p>Gweledigaeth hirdymor y Cyngor yw rhoi'r cyfle gorau posibl i bob disgybl gyflawni ei lawn botensial trwy addysg a thrwy ddarparu mynediad i'r cyfleoedd dysgu gorau gyda chyfleusterau modern, hyblyg sy'n briodol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd.</p> <p>Bydd amgylcheddau dysgu gwell yn annog creu dyfodol gwell trwy ddarparu cyfleusterau ysgol newydd sbon sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif i ddisgyblion trwy gydol eu haddysg, o'r Cyfnod Sylfaen hyd at ddarpariaeth ôl-16 fwy effeithlon ac effeithiol.</p>

	<p>Yn yr achos yma, bydd adeiladu ysgol newydd sbon ar safle newydd yn mynd i'r afael â'r buddsoddiad angenrheidiol sydd ei angen yn lle'r ysgol bresennol yn YGG Llyn y Forwyn, sy'n un o'r adeiladau yn y cyflwr gwaethaf ym mhorthfolio addysg y Cyngor.</p>
<p>Atal (Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion).</p>	<p>Sut mae eich prosiect chi'n defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu?</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau o ddarparu'r cyfleusterau a'r cyfleoedd i bawb dderbyn addysg ragorol yng nghyfleusterau'r 21^{ain} Ganrif. Nod y cynnig yma yw gwella'r amgylchedd addysgol ar gyfer pob dysgwr o 3 i 11 oed yn YGG Llyn y Forwyn trwy gynnal adeilad ysgol newydd sbon sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 yn lle'r adeilad presennol sydd mewn cyflwr gwael.</p> <p>Yn ogystal, bydd y cynnydd bach yng nghapasiti YGG Llyn y Forwyn o 197 o ddisgyblion (gan gynnwys y feithrinfa) i 210 (gan gynnwys y feithrinfa) yn atal YGG Llyn y Forwyn rhag agosáu at gapasiti llawn yn y blynyddoedd i ddod a sicrhau bod digon o lefydd cyfrwng Cymraeg yn ardal Cwm Rhondda Fach yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.</p>
<p>Cymdeithasol (Ystyried sut mae modd i amcanion lles y cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill).</p>	<p>Sut mae eich prosiect chi'n cyflawni cyfuniad o gyflawniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gyda'i gilydd?</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel elfen hanfodol i gyflawni ac atgyfnerthu buddion cymdeithasol a diwylliannol. Bydd y cynnig yma'n creu rhagor o leoedd cyfrwng Cymraeg yn ardal Cwm Rhondda Fach yn y Fwrdeistref Sirol ac yn creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer cydweithredu a chyfranogiad pellach gan y gymuned.</p> <p>Anogir defnydd cymunedol a thrydydd parti o gyfleusterau'r ysgol, bydd yr ysgol wedi'i chynllunio i fod yn ysgol gwbl hygyrch ac un sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn yn y gymuned. Bydd ardal bwrpasol yn cael ei dylunio yn yr ysgol at ddefnydd y gymuned leol, er mwyn iddyn nhw allu defnyddio cyfleusterau yn yr ysgol yn ddiogel, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol.</p>
<p>Cydweithio Digidol (Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant).</p>	<p>Sut mae eich prosiect chi'n cynnwys y gwaith o weithio gyda phartneriaid (mewnol ac allanol) i gyflawni amcanion llesiant?</p> <p>Os yw'r cynnig yma'n cael ei ddatblygu, bydd y Cyngor yn ceisio cydweithio â disgyblion, staff a rhieni / gwarcheidwaid YGG Llyn y Forwyn er mwyn sicrhau bod yr holl rhanddeiliaid yn cael cyfle i ddylanwadu ar wedd adeilad yr ysgol newydd i sicrhau bod buddion a chyfleoedd llesol yn ganolbwynt pwysig.</p>
<p>Cynnwys (Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod</p>	<p>Sut mae eich prosiect chi'n cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y broses o gyflawni'r nodau llesiant? Sut mae'r rhanddeiliaid hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal?</p> <p>Wrth symud ymlaen, bydd gwaith ymgysylltu â disgyblion, staff a thrigolion yn cael ei gynnal a bydd y mewnbwn o'r sesiynau yma'n</p>

<p>y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff hwnnw'n ei gwasanaethu).</p>	<p>siapio adeilad newydd yr ysgol. Yn ogystal, bydd yr wybodaeth sy'n dod i law yn dylanwadu ac yn llywio prosiectau yn y dyfodol fel bod yr holl ymgynghoriadau a wneir yn llywio etifeddiaeth Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.</p>
--	--

Cyfraniad at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP)

Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP). Teclyn cynllunio iaith tymor hir yw'r WESP sy'n pennu'r cyfeiriad o ran cynllunio, cyflenwi a thwf strategol addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg. Trwy'r WESP, cynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad, nod y Cyngor yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050. Mae modd darllen WESP cyfredol RhCT a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/WelshServices/Relateddocs/CynllunStrategolGymraegmewnAddysg20172020.pdf>

Mae'r WESP deng mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2032 yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd a bydd yn destun proses ymgynghori statudol yn y man. Ymhlith y rhestr o ddatblygiadau strategol, camau gweithredu a deilliannau y bydd y Cyngor yn ymgymryd â nhw i helpu i gyflawni'r targedau sydd wedi'u nodi yn y WESP, mae:

- Adeiladau ysgol newydd a gwell sydd â lefelau priodol o leoedd ar gael i fodloni'r rhagolygon o ran y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu dalgylchoedd.

Bydd y cynnig i drosglwyddo YGG Llyn y Forwyn i adeilad pwrpasol Ysgol yr 21^{ain} Ganrif sydd â mwy o leoedd ar gael yn cyfrannu at nod RhCT o gynyddu nifer y disgyblion blwyddyn un sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig yma'n ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth y Gymraeg.

Ystyriaethau addysgol

Mae'r cynnig yma'n rhan o Raglen Buddsoddi ehangach Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor. Mae'n cyfrannu at ddarpariaeth ysgolion cynaliadwy sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif ac yn cefnogi rheolaeth strategol well eiddo addysg y Cyngor.

Yn ychwanegol at yr amcan yma, dylai cynigion i newidiadau sefydliadol ysgolion dynnu sylw at y manteision addysgol y bydd unrhyw newid yn eu cynnig, yn arbennig mewn perthynas â gwella safonau'n gyffredinol, ond hefyd o ran datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, a fyddai fel arfer yn cael effaith ffafriol ar eu cyflawniad a'u deilliannau cyffredinol.

Byddai'r ysgol newydd, a fyddai'n cael ei hadeiladu i safonau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r ysgol i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen a phob Cyfnod Allweddol o addysg. Fyddai dim cyfyngiadau yn hyn o beth.

Rydyn ni'n rhagweld fydd y newidiadau arfaethedig ddim yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion. I'r gwrthwyneb, bydd nifer o fanteision - y prif newid fydd gwella ansawdd y lleoliad addysg, a dylai hyn gael effaith sylweddol ar gyflawniad addysgol y disgyblion.

Goblygiadau i staff

Wrth wneud y newid arfaethedig, fydd y mwyafrif o bethau ddim yn newid i'r staff o gwbl. Bydd yr ysgol, gan gynnwys yr holl staff, yn adleoli gyda'i gilydd, felly does dim goblygiadau Adnoddau Dynol o ganlyniad i roi'r cynigion yma ar waith. Yn wir, y disgwyl yw y bydd y newid arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar staff.

Y prif newid fydd gwella ansawdd y lleoliad addysgu a'r amgylchedd gwaith. O ganlyniad i hyn, rydyn ni'n rhagweld y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ysbryd a lles y staff, ac yn helpu i'w cadw yn yr ysgol.

Goblygiadau i ddisgyblion

Rydyn ni'n rhagweld fydd y newidiadau arfaethedig ddim yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion. I'r gwrthwyneb, bydd nifer o fanteision - y prif newid fydd gwella ansawdd y lleoliad addysg, a dylai hyn gael effaith sylweddol ar gyflawniad addysgol y disgyblion.

Fydd dalgylch yr ysgol gynradd newydd ddim yn newid, h.y. bydd yn parhau i fod yr un peth â dalgylch presennol YGG Llyn y Forwyn. Bydd polisi'r Cyngor ynghylch darpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol yn parhau i fod yn gymwys. Does dim gwahaniaeth yn yr amser mae'n cymryd i deithio i safle newydd yr ysgol gan ei fod yn agos at yr ysgol bresennol. Efallai y bydd taith i'r ysgol rhai disgyblion ychydig yn hirach ond bydd gan lawer un daith fyrrach.

Ar hyn o bryd mae 65% o ddisgyblion yn defnyddio Cludiant o'r Cartref i Ysgol a dydyn ni ddim yn rhagweld y bydd y ganran yma'n newid ryw lawer. Yn gyffredinol, rydyn ni o'r farn bod yr effaith ar drefniadau teithio disgyblion yn niwtral.

Bydd llwybrau cerdded diogel yn cael eu hasesu, a bydd materion fel hygyrchedd, manau croesi diogel, gofynion palmant cyffyrddol ac ati yn cael eu hystyried. Bydd unrhyw argymhellion sy'n codi o'r archwiliad diogelwch yma'n cael eu rhoi ar waith, gan sicrhau bod y safle yn hygyrch i bawb ac yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae rhagor o wybodaeth am drafnidiaeth wedi'i chynnwys gyda'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.

Mae'r Cyngor o'r farn nad oes unrhyw effeithiau negyddol o ran y newidiadau i ddisgyblion, rhieni / gwarcheidwaid, staff na'r gymuned leol. Mae'r Cyngor o'r farn y bydd y newidiadau yn cynnig effaith gadarnhaol i bawb.

Newidiadau i Ddalgyloedd

Fydd dim newidiadau i ddalgyloch presennol YGG Llyn y Forwyn. Mae 95% o ddisgyblion cyfredol YGG Llyn y Forwyn yn byw yn y dalgyloch. Dyw'r Cyngor ddim o'r farn y bydd y cynigion yma'n cael unrhyw effaith ar hyn.

Goblygiadau Ariannol

Ar hyn o bryd, does dim diffyg yng nghyllideb YGG Llyn y Forwyn a does dim tystiolaeth y bydd y cynigion yma'n effeithio ar y sefyllfa ariannol gadarnhaol yma. Yn ogystal â hyn, does dim cynnydd yng nghostau cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael eu rhagweld.

Er y bydd peth arbedion yn cael eu nodi o ystyried fydd dim gwaith cynnal a chadw yr ysgol newydd - ac yn bwysicach fyth yn fwy effeithlon o ran ynni, sy'n wahanol iawn i gyflwr gwael adeilad presennol yr ysgol - bydd cynnydd yn yr ardrethi sy'n daladwy ar gyfer adeilad newydd yr ysgol. Does dim modd bod yn fanwl gywir ynghylch costau refeniw'r dyfodol, gan eu bod yn dibynnu ar benderfyniadau'r Corff Llywodraethu yn y dyfodol hefyd. Serch hynny, yn ôl y rhagolygon, bydd unrhyw gynnydd o ran costau ac unrhyw arbedion yn negyddu'r llall. O ganlyniad i hyn, fyddai dim newid i'r gyllideb yn gyffredinol. Yr hyn sy'n sicr yw y bydd y cynnig yma'n dileu swm cynnal a chadw sylweddol o dros £1.01 miliwn sydd wedi'i chronni dros amser.

3. I bwy mae'r Cynnig yma'n berthnasol?

Plant a phobl ifainc rhwng 3 ac 11 oed sy'n byw yn dalgyloch YGG Llyn y Forwyn, rhieni / gwarcheidwaid y plant yma a'r staff sy'n gweithio yn YGG Llyn y Forwyn.

4. Nodwch a fydd hyn yn gynnig newydd, adolygiad neu ddarfyddiad arfaethedig:

Cynnig newydd.

5. Adnabod Effeithiau

Adnabod Effeithiau				
Pobl / materion i'w hystyried	Effaith y Cynnig			Esboniwch unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol:
	Cadarnhaol	Negyddol	Niwtral (Dim Effaith)	
Oedran (ifanc a hen)	X			Bydd cynyddu nifer y lleoedd ar gyfer ysgol gynradd Gymraeg drwy ychwanegu ystafelloedd dosbarth newydd yn cynnig lle a chyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer dysgu ac addysgu addas ar gyfer yr 21 ^{ain} Ganrif yn YGG Llyn y Forwyn.

				<p>Bydd codi adeilad ysgol newydd sbon ar safle newydd yn mynd i'r afael â'r buddsoddiad brys sydd ei angen drwy godi ysgol yn lle'r ysgol bresennol yn YGG Llyn y Forwyn. YGG Llyn y Forwyn yw un o'r adeiladau gwaethaf ym mhortffolio addysg y Cyngor.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu amgylcheddau dysgu cyfforddus a deniadol i ddisgyblion sydd wedi'u haddysgu cyn hyn mewn adeilad o gyflwr gwael. • Cynnig cyfleusterau o safon sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif i alluogi pob disgybl yn y gymuned leol i fanteisio ar weithgareddau dysgu a diwylliannol y mae modd iddyn nhw eu helpu i ddatblygu perthnasau mewn cymunedau. • Ateb y galw am leoedd ychwanegol yn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg drwy gynyddu capasiti YGG Llyn y Forwyn.
Anabledd (cofiwch ystyried y mathau gwahanol o anableddau)	Oes			<p>Bydd yr adeilad ysgol newydd ar gyfer YGG Llyn y Forwyn yn gwbl hygyrch i bawb a bydd yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth bresennol o ran hyn.</p> <p>Bydd yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.</p>
Rhywedd			X	
Ailbennu Rhywedd			X	
Hil			X	

Crefydd neu Gred			X	
Cyfeiriadedd rhywiol			X	
Y Gymraeg	X			Bydd y cynnig yn gwella ac yn cynyddu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Cwm Rhondda Fach yn y Fwrdeistref Sirol. Cynigir y bydd gan yr ysgol newydd feithrinfa newydd ar y safle, a fydd yn cryfhau'r continwmm iaith ar gyfer y disgyblion ifainc. Yn ogystal, bydd y cyfleusterau newydd, hygyrch i'r gymuned yn galluogi cynnal clybiau ar ôl ysgol, yn ogystal â sesiynau i'r gymuned, trwy gyfrwng y Gymraeg.
Rhieni/Gwarcheidwaid	X			Bydd y cynnydd bach yn nifer y lleoedd yn YGG Llyn y Forwyn a'r gwelliannau sylweddol yn ansawdd amgylcheddau dysgu addysg gyfrwng Cymru yn ardal Cwm Rhondda Fach yn y Fwrdeistref Sirol yn cynnig rhagor o ddewis o ran addysg o ddewis iaith y rhieni / gwarcheidwaid.

6. Pa dystiolaeth sy'n cefnogi'ch casgliadau?

Mae'r dystiolaeth i gefnogi'r casgliadau yma wedi'i disgrifio'n llawn yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r Adroddiad i Gabinet y Cyngor, dyddiedig 28 Ionawr 2021.

7. Ar gyfer meysydd lle mae effaith negyddol wedi cael ei hadnabod, oes modd lleihau'r effaith negyddol neu gael gwared arni?

Doedd dim effeithiau negyddol yn dod i'r amlwg.

8. Pa waith cyfrannu ac ymgynghori sy wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r cynnig yma a beth yw'r canlyniadau?

Gwneir y cynnig yma'n unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion - 2018 (011/2018). Mae adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion - 2018 yn cyfeirio at addasiadau rheoledig i ysgol, sy'n cynnwys:

- Trosglwyddo unrhyw ysgol i safle neu safleoedd newydd.

Bydd yr ymgynghoriad yn cychwyn ddydd Llun 1 Mawrth 2021 a bydd yn dod i ben am 5pm ddydd Gwener 30 Ebrill 2021. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu a'i grynhoi, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Mai 2021. Bydd yr adroddiad ymgynghori yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor, a bydd copïau ar gael ar gais.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu - yn seiliedig ar yr adborth - a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, newid y cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen ag ef. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi, gan ddarparu cyfnod hysbysu 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, **rhaid** eu cyflwyno'n ysgrifenedig / drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf (cyfleus) y Cabinet ac yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o benderfynu ar y cynnig. Bydd yr adroddiad ymgynghori yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor hefyd, a bydd copïau ar gael ar gais.

Os yw Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, caiff y cynnig ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr hysbysiad statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny. Yn achos y cynnig yma, fydd trosglwyddo YGG Llyn y Forwyn i'r safle newydd ddim hwyrach na Mawrth 2024.

9. Pa drefniadau sydd wedi'u rhoi yn eu lle i adolygu effaith y cynnig unwaith y bydd yn cael ei weithredu?

Dyma ddogfen fyw ac o'r herwydd bydd rai pwyntiau allweddol yn cael ei hadolygu gan Garfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif wrth symud o'r gyflwyno'r cynnig hyd at ei weithredu. Wrth gwrs, mae hyn yn amodol ar sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen gyda'r cynigion fel yr ymgynghorwyd â hwy.

10. Pa opsiwn ydych chi wedi'i ddewis o ganlyniad i'ch asesiad o'r effaith?

Parhau i weithredu'r cynnig.

Nodwch resymau ar gyfer eich penderfyniad.

Mae'r dystiolaeth i gefnogi'r casgliadau yma wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r Adroddiad i Gabinet y Cyngor, dyddiedig 28 Ionawr 2021.

11. Cynllun Gweithredu

Cynllun Gweithredu - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb				
Cam Gweithredu	Swyddogion Cyfrifol	Amserlen ar gyfer Camau Gweithredu	Amserlen adolygu	Mesurau i'w cymryd i werthuso effeithiau gweithredu
Ymgynghori â disgyblion, staff a'r gymuned leol ar ddyluniad yr adeilad ysgol newydd i sicrhau bod eu barn yn cael ei chynrychioli yn rhan o'r adeilad gorffenedig.	Carfan Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif.	Parhau trwy gydol cyflwyno'r prosiect	Ar ôl cwblhau Cam 2 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) y cam dylunio.	Ymgynghori â disgyblion, staff a'r gymuned leol ar y cynlluniau dylunio terfynol.
Codi adeilad newydd yr ysgol a sicrhau nad yw'r gwaith adeiladu yn tarfu ar y gymuned leol	Carfan Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif Carfan Eiddo'r Cyngor.	Parhaus trwy gydol y cyfnod adeiladu.	Ar ôl cwblhau'r cam adeiladu.	Bydd gohebiaeth a thrafod yn rheolaidd â'r gymuned leol yn allweddol i leihau unrhyw darfu ar yr ardal wrth adeiladu'r ysgol newydd.

12. Nodwch isod unrhyw effaith negyddol sydd wedi cael ei nodi yn Holiadur yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a heb ei nodi yng Nghynllun Gweithredu yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Dim.

Cadwch gopi o Holiadur yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Chynllun Gweithredu yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac anfonwch gopïau at:

Carfan Materion Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol,
CBSRhCT
Y Pafiliynau
Cwm Clydach
CF40 2XX

E-bost: cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

Llofnod: Gaynor Davies

Dyddiad: 27 Chwefror 2021

Teitl y Swydd: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant